Swyddogaethau Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd (o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011) yw –

(a) darparu cefnogaeth a chyngor (ond gweler nodyn 1, isod)

- i'r awdurdod mewn perthynas â'i gyfarfodydd;
- i bwyllgorau'r awdurdod ac aelodau'r pwyllgorau hynny;
- i unrhyw gyd-bwyllgor y mae awdurdod lleol yn gyfrifol am ei drefnu, ac aelodau'r pwyllgor hwnnw;
- mewn perthynas â swyddogaethau pwyllgor(au) trosolwg a chraffu'r awdurdod, i aelodau'r awdurdod, aelodau'r grŵp gweithredol a swyddogion;
- i bob aelod o'r awdurdod wrth ymgymryd â rôl aelod o'r awdurdod (ond gweler nodyn 2, isod);

(b) hyrwyddo rôl pwyllgor(au) trosolwg a chraffu'r awdurdod;

(c) llunio adroddiadau ac argymhellion yn ymwneud â nifer a graddau'r staff sydd eu hangen i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, penodi a threfnu'r staff hynny, a'u rheoli'n briodol;

(ch) unrhyw swyddogaethau eraill a bennir gan Weinidogion Cymru.

[Nodiadau

1. mae'r swyddogaeth o ddarparu cyngor ynglŷn â sut ddylid cyflawni swyddogaethau'r awdurdod, neu sut y dylent fod wedi eu cyflawni, yn berthnasol i gyngor yn ymwneud â swyddogaethau'r pwyllgorau trosolwg a chraffu a gwasanaethau democrataidd yn unig;

2. yn yr achos hwn, nid yw cyngor i aelod yn cynnwys cyngor mewn cysylltiad â'i rôl fel aelod gweithredol, ac nid yw'n cynnwys cyngor ynglŷn â mater sy'n cael ei ystyried mewn cyfarfod, neu sydd i gael ei ystyried (ar wahân i gyfarfod pwyllgor trosolwg a chraffu neu bwyllgor gwasanaethau democrataidd.]